## Ar draws y ddinas 9-30 Medi

# Rhaglen yr Ŵyl

Bwyd Da Caerdydd
Gŵyl Hydref

## Gŵyl Fwyd Amgueddfa Cymru

9 a 10 Medi 2023

**Amgueddfa Cymru a Bwyd Caerdydd. Agored i Bawb. Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, CF5 6XB**

"Digwyddiad blynyddol yw Gŵyl Fwyd Amgueddfa Cymru a gynhelir yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.

Mae'n un o hoff ddigwyddiadau'r calendr bwyd yng Nghymru, gan ddod â Sain Ffagan yn fyw gyda thros 80 o stondinau bwyd, diod a chrefftau ymhlith yr adeiladau hanesyddol.

Yn ardal Bwyd Da Caerdydd bydd gweithgareddau llawn hwyl ar gael i'r teulu cyfan i'w dysgu am fwyd sydd o les i bobl ac i'r blaned. Wedi'i arwain gan Bwyd Caerdydd a Beca Lyne-Pirkis (Cogydd, Cyflwynydd, Awdur a Seren Great British Bake Off), cynhelir gweithdai, arddangosiadau, sgyrsiau a gweithgareddau i ddathlu bwyd lleol yn yr ardal."

## Digwyddiad Codi Arian Cymry Swdan

9 Medi 2023

**Sgwrs Menywod  Agored i Bawb. Warws Glan-yr-afon SRCDC , CF11 6EQ**

Ymunwch â'r digwyddiad codi arian i brynu meddyginiaeth i bobl Swdan sy'n dioddef effeithiau'r rhyfel. Byddwn yn gweini bwyd traddodiadol o Swdan, a bydd dawnsio, cerddoriaeth, paentio wynebau, henna, castell gwynt, celf a byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r caledi y mae pobl Swdan yn ei wynebu mewn gwlad sydd wedi'i dinistrio gan ryfel ar hyn o bryd.

## Cwis a Noson Gyrri i Godi Arian

9 Medi 2023

**Gwirfoddolwyr Cymunedol Y Sblot. Agored i Bawb. Canolfan Gymunedol STAR, CF24 2BZ**

Dewch i'n Cwis a Noson Gyrri i godi arian a mwynhau swper sef dewis o gyrri llysiau neu gyw iâr a seigiau ochr.  Mae croeso i blant  12+ oed fynychu. Drysau'n agor am 7pm. Dewch â'ch diodydd eich hun. (£6 y pen, £3 y plentyn 12+ oed). Gallwch archebu lle drwy gysylltu â joe@splottcommunityvolunteers.co.uk

## Pen-blwydd Marchnad Glan-yr-afon yn 25 oed

10 Medi 2023

**Marchnad Ffermwyr Caerdydd. Agored i Bawb. Arglawdd Fitzhamon, CF11 6AN**

Hoffem wahodd pawb, ein cefnogwyr selog a'r rhai sy'n ymweld am y tro cyntaf, i ddathlu ein pen-blwydd yn 25 oed. Mae'r achlysur hwn yn gyfle perffaith i ddathlu'r effaith gadarnhaol mae cynyrchwyr a chrefftwyr bwyd lleol wedi'i chael ar y ddinas.

## Operation Vegetable

9 - 30 Medi 2023

**Ysgol Gynradd Ton Yr Ywen. Gwahoddiad yn Unig. Ysgol Gynradd Ton Yr Ywen, CF14 4HG**

"Hyrwyddo iechyd a lles plant yw bwriad Operation Vegtable a hynny drwy fod yn yr awyr agored a thyfu llysiau ar ein rhandir.

Bydd cyfle i blant Blwyddyn 4 ddysgu sut i dyfu eu llysiau eu hun. Bydd y plant yn ymchwilio i ba lysiau y gallant eu tyfu yn yr hydref ac yn cynllunio'r rhandir yn unol â hynny. Bydd cyfle iddynt hefyd gynaeafu'r llysiau sy'n barod a'u gwerthu i gymuned yr ysgol."

## Ar draws y ddinas 9-30 Medi

# Rhaglen yr Ŵyl

Bwyd Da Caerdydd
Gŵyl Hydref

### Digwyddiad y Cynhaeaf i Ddathlu Treftadaeth Fyd-eang

15 Medi 2023

**Back to Our Roots a Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes. Agored i Bawb. Ar-lein**

"Ym mis Mai edrychodd y rhwydwaith newydd Back to Our Roots ar yr heriau a'r llwyddiannau a geir yn sgil tyfu ffrwythau a llysiau sy'n cynrychioli ein cymunedau amrywiol yma yn y DU. Bydd y sesiwn ddilynol hon yn dathlu cynaeafu llawer o'r gwahanol hadau byd-eang rydym wedi'u plannu ar hyd a lled y DU.

Bydd Catrina sy'n gyfrifol am y llyfrgell hadau yn Garden Organic yn ymuno â Carol Adams. Bydd yn datgelu'r cyfoeth o wahanol hadau gwerthfawr sydd ar gael yn ystod y sesiwn. Mae'r digwyddiad ar agor i bawb, felly cofiwch ymuno i arddangos eich cynnyrch ac i ddysgu am gadw hadau."

### Digwyddiad Rhannu Pryd a Chysylltu Teuluoedd

16 Medi 2023 neu 23 Medi 2023 (yn dibynnol ar y tywydd)

**Ymddiriedolaeth Gymunedol Alhusna. Gwahoddiad yn Unig. Parc Moira Terrace / Moira Place**

Bwriad y digwyddiad hwn yw cysylltu drwy fwyd a chefnogi teuluoedd i fynd i'r afael ag unigrwydd. Daw pobl at ei gilydd i rannu gwahanol brydau bwyd ethnig ac i gyfnewid ryseitiau, gan gysylltu â phobl leol i ddathlu gwyliau bwyd Caerdydd yr hydref drwy goginio a bwyta.

### Y Pridd a'r Cynnyrch: Tyfu gyda'n Gilydd ar gyfer yr Hydref

23 Medi 2023

**Gardd Gymunedol Tyfu Gyda'n Gilydd. Agored i Bawb. Eglwys Gyfanol Treganna, CF5 1LQ**

Dewch i fwynhau ein gardd gymunedol llawn llysiau yn Nhreganna ac i baratoi'r pridd ar gyfer y gaeaf a'r gwanwyn. Rydym yn falch bod Louise Gray a Pat Gregory am arwain y gweithgareddau garddio ymarferol. Cewch ddysgu sut i wneud eich compost eich hun, plannu bylbiau, rhoi eginblanhigion mewn potiau a hau llysiau'r gaeaf. Bydd cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan fynd â phethau adref - toriad mewn potyn, tusw o berlysiau ac unrhyw lysiau sy'n barod i'w cynaeafu.

### Dathlu Cynaeafu Gardd Cegin

23 Medi 2023

**Urban-Vertical CIC. Gwahoddiad yn Unig. Ysgol Feithrin Grangetown, CF11 7DT**

Bydd CIC Urban-Vertical yn dathlu'r holl waith gwych y mae cymuned Grangetown yn ei wneud i sicrhau bod Gardd Cegin Grangetown yn cael ei chynnal mor llwyddiannus â phosibl. Ers mis Ebrill, mae CIC Urban-Vertical wedi bod yn gweithio gyda'r gymuned i ddatblygu gardd i dyfu bwyd, marchnad wythnosol ar gyfer bwyd dros ben, cyrsiau coginio, maetheg a chreadigol am ddim, ac wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol. Mae ein rhaglen wirfoddoli yn allweddol er mwyn iddo lwyddo, a hoffem gydnabod a dathlu help a chymorth ein gwirfoddolwyr. Fel rhan o ddathlu'r cynhaeaf cymunedol bydd arddangosiadau coginio yn yr awyr agored gyda'r bwyd tymhorol a bwyd dros ben gan gogyddion lleol, gemau gardd hwyliog, cystadleuaeth aros-barod-coginio, cinio tymhorol am ddim, a cherddoriaeth fyw. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd hyd yma i nodi'r garreg filltir bwysig hon fel rhan o Raglen Gŵyl Fwyd Caerdydd yr Hydref.

### O'r Hedyn i'r Bwrdd yn Neuadd a Gardd Gymunedol San Pedr

24 Medi 2023

**Neuadd a Gardd Gymunedol San Pedr. Agored i Bawb. Neuadd a Gardd Gymunedol San Pedr, CF5 3DW**

"Dewch i ymuno â ni am brynhawn hwyliog ac i ddysgu am daith arddio San Pedr.

Gallwch ddysgu sut i dyfu bwyd syml, maethlon ac iach yn eich gardd, iard gefn neu ar silff y ffenestr hyd yn oed - hadau, eginblanhigion, perlysiau ac ati.

Mae'r taflenni gweithgareddau yn canolbwyntio ar helpu bywyd gwyllt dros y gaeaf. Bydd cyfle i wneud roliau bara. Bydd gwobr am y model clai gorau o anifail coetir. A chyfle i ennill 5 bocs ar gyfer y ffenestr!"

## Ar draws y ddinas 9-30 Medi

# Rhaglen yr Ŵyl

Bwyd Da Caerdydd
Gŵyl Hydref

## Cynnyrch Gardd Organig

25 Medi 2023

**Prosiect Gardd Gymunedol Glan-yr-Afon. Agored i Bawb. Rhandiroedd Parhaol Pontcanna, CF5 2YB**

Gallwch fwynhau cynnyrch cartref o'n gardd organig, wedi'i goginio yn y popty pitsa. Edrychwn ymlaen at eich gweld i gyd a byddwn yn rhoi taith o amgylch ein gardd hyfryd hefyd. (Gwerthfawrogir rhoddion ar gyfer yr ardd).

## Bwydydd Da y Byd

29 Medi 2023

**Fforwm Ieuenctid Grangetown. Gwahoddiad yn Unig. Pafiliwn Grange, CF11 7LJ**

Daw pobl ifanc 13-25 oed at ei gilydd i rannu, i gysylltu ac i brofi bwydydd o bob cwr o'r byd i ddathlu diwylliant ac i siarad am gynaliadwyedd a bwyta'n iach.

## Digwyddiad Dathiu'r Cynhaeaf a Gwneud Bara y Clwb Garddio

30 Medi 2023

**Gerddi Rheilffordd. Agored i Bawb. Gerddi Rheilffordd, CF24 2BH**

"Ymunwch â'r Grŵp Tyfu Gerddi Rheilffordd i ddathlu'r cynhaeaf! Cymerwch ran mewn gweithgareddau garddio, raffl, stondin gacennau a dydd Sadwrn Rhannu Bwyd arbennig gyda Molly a fydd yn ein dysgu sut i wneud bara. Rhagor o fanylion yn fuan! Cofiwch roi gwybod i ni os gallwch gynnig gwobr ar gyfer y raffl, pobi cacen neu fara ar gyfer y stondin gacennau, neu wirfoddoli ar y diwrnod.

## Dewch i Ddylunio Perllan

30 Medi 2023

**Perllan Gymunedol Parc Bute. Agored i Bawb. Parc Biwt, CF10 3DR**

"Dewch i gynllunio perllan. Mae perllan gymunedol Parc Bute i bawb, ac wedi'i lleoli ar y tir a roddodd yr Iarll Bute i drigolion Caerdydd. Bydd yn lle i bawb, yn groesawgar ac yn agored, ac wedi'i ddylunio gennych chi.

Ymunwch â ni drwy ein helpu i ddylunio coedwig fwytadwy anhygoel. Dewch i sgwrsio, i ofyn cwestiynau, i gyflwyno syniadau neu ddim ond cofrestru i gymryd rhan. Hoffem eich gweld.
Bydd y sesiwn yn un hamddenol, anffurfiol a hwyliog.

Darperir lluniaeth a rhai gweithgareddau ymarferol. Mae croeso i bob oedran.

Bydd y sesiwn yn yr awyr agored felly cofiwch ddod â digon o ddillad."

## Diwrnod yr Afal

30 Medi 2023

**Orchard Cardiff. Agored i Bawb. Global Gardens, Rhandir Flaxland, CF14 3NE**

Ymunwch â ni i ddathlu diwrnod yr Afal - cewch wasgu eich gwydryn o sudd afal, rhoi cynnig ar gwis yr afal a dod ar daith o amgylch perllan!

## Prosiect Dathlu'r Tomato @Global Gardens

30 Medi 2023

**Prosiect Global Gardens. Agored i Bawb. Global Gardens, Rhandir Flaxland, CF14 3NE**

Ymunwch â ni am brynhawn o ddathlu'r gwahanol domatos sy'n tyfu yn Global Gardens. Byddwn yn cynnal gweithdai blasu a sut i gadw hadau ac yn cynnal arddangosiad coginio.